EMBARGOED UNTIL 1200 noon (GMT) Tuesday 10 March 2026

# Newyddiadurwyr hawliau dynol, gwyddonwyr biofeddygol, ac ysgrifenwyr creadigol ymhlith aelodau newydd UK Young Academy

Heddiw, mae UK Young Academy wedi cyhoeddi 22 aelod newydd, a fydd yn ymuno â'r 141 o'r arweinwyr datblygol sydd eisoes yn aelodau.

Dewiswyd aelodau newydd Young Academy am eu bod yn rhagori yn eu meysydd eu hunain, o gadwyni cyflenwi ffasiwn byd-eang, deallusrwydd artiffisial (AI) i ddarganfod cyffuriau, i bediatreg ac afiechydon heintus.

Mae carfan 2026 yn cynnwys saith aelod o'r celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, sy'n codi eu cynrychiolaeth i draean o gyfanswm yr aelodau. Daw 18 y cant arall o'r aelodau newydd o gefndiroedd busnes, y sector cyhoeddus a chyfathrebu.

Yn ôl Linda Oyama, cynrychiolydd Grŵp Gweithredol UK Young Academy: "Wrth i ni lunio Cynllun Strategol UK Young Academy ar gyfer 2023 i 2028, un genhadaeth graidd oedd dod â lleisiau amrywiol at ei gilydd i rannu syniadau a gwella'r broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â datblygu, cysylltu a hybu talent pobl ifanc yn gynnar yn eu gyrfa.

Carfan eleni sydd â'r nifer fwyaf o aelodau newydd sy'n dod o leoliadau anacademaidd, mwy nag unrhyw garfan UK Young Academy hyd yma. Drwy barhau i ddod ag aelodau at ei gilydd o gefndiroedd amrywiol, byddwn yn sicrhau ein bod ni'n cyfuno a gwreiddio disgyblaethau ar draws ein gwaith - bydd hyn yn amhrisiadwy wrth i ni ddwysau ein gwaith gyda sectorau anacademaidd yn benodol."

Rydym hefyd yn cydnabod bod gyrfaoedd ystyrlon yn aml yn datblygu drwy amryw o droadau annisgwyl, ac rydym yn parhau i ddathlu llwybrau gyrfa hyblyg gyda'r garfan newydd hon."

Ddiwedd y mis, bydd yr aelodau yn cael Diwrnod Cynefino ac yn cyfarfod â'r holl aelodau eraill – dyma fydd eu cyfle cyntaf i gysylltu a rhannu dyheadau.

Bydd yr aelodau newydd yn dechrau yn eu swyddi ddydd Llun 23 Mawrth 2026, a byddant yn aelodau am bum mlynedd.

**Yn aelod newydd sydd â phrofiad mewn diwydiant a'r byd academaidd, dywedodd Takunda Chingonzo,**

"Mae gwaith rhyngddisgyblaethol yn ddrych i holl realiti y byd yr ydym ni'n byw ynddo heddiw. Byd ble mae awydd i drawsnewid, a ble mae technoleg newydd yn tarfu mwy a mwy...

Cefais fy nenu at UK Young Academy oherwydd mae'n dod ag arweinwyr ynghyd ar draws meysydd disgyblaeth sy'n rhannu gweledigaeth am y dyfodol... I mi, mae

Young Academy yn cynnull ac yn rhoi llwyfan i ddysgu ar y cyd a gweithredu mewn partneriaeth."

**Yn ôl Christine Lehnen, aelod newydd a Darlithydd mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Exeter:**

"Ymunais ag UK Young Academy oherwydd mae arfer greadigol yn dysgu math o ddeallusrwydd sydd ei hangen ar frys heddiw. Y gallu i dalu sylw manwl, dros gyfnod hir.

A minnau'n ysgrifennu, mae fy ngwaith yn dechrau drwy sylwi: edrych yn agos, penderfynu beth sy'n bwysig, a dychmygu pethau gwahanol. Mewn cyfnod pan fo pethau'n tynnu ein sylw ac yn siapio ein bywydau a'n sefydliadau drwy'r adeg, nid moethusrwydd mo'r sylw dyfeisgar hwn. Hebddo, ni allwn ni hyd yn oed adnabod pa gwestiynau sydd werth eu holi, ac sydd werth ymchwilio iddyn nhw.

Rwy'n gobeithio cyfrannu'r deallusrwydd artistig yma a helpu i greu llefydd ble gall yr aelodau bwyllo, canolbwyntio a meddwl yn feiddgar ar draws ffiniau disgyblaethol am yr hyn sydd wirioneddol yn bwysig heddiw."

**Ychwanegodd Finbarr Toesland, aelod newydd a newyddiadurwr hawliau dynol:**

"Mae gohebu wedi dangos i mi pa mor aml mae syniadau pwysig yn aros yn sownd mewn seilo. Ymunais ag UK Young Academy oherwydd roeddwn i eisiau bod yn rhan o chwalu hynny. Anaml y gwnewch chi ddod ar draws rhywle ble mae pobl broffesiynol o wahanol feysydd yn cael eu hannog i ddysgu oddi wrth y naill a'r llall mewn ffordd gynaliadwy, ac roeddwn i eisiau bod yn rhan o hynny".

**<u>Rhestr lawn o'r aelodau (yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw):</u>**

1. Samuel Owusu Achiaw
   Swydd: Ymchwilydd (Asesiad Economeg Iechyd a Thechnoleg Iechyd) ac Arlunydd
   Sefydliad: Ysgol Iechyd a Lles, Prifysgol Glasgow

2. Chinagorom Ajike
   Swydd: Rheolwr Partneriaethau Cefn Gwlad ac Uwch Gydymaith Ymchwil
   Sefydliad: Canolfan Cydraddoldeb Byd-eang a Phrifysgol Caergrawnt

3. Amy Benstead
   Swydd: Uwch Ddarlithydd mewn Rheoli Ffasiwn
   Sefydliad: Adran Ddefnyddiau, Prifysgol Manceinion

4. Takunda Chingonzo
   Swydd: Ymchwilydd Doethuriaeth

Sefydliad: Canolfan Trawsffurfio Diwydiant a Busnes, Prifysgol Nottingham Trent

5. Rodrigo Frias
   Swydd: Ymchwilydd Doethuriaeth
   Sefydliad: Ysgol Fusnes, Prifysgol Durham

6. Stuart Higgins
   Swydd: Cymrawd Ymchwil
   Sefydliad: Ysgol Ffiseg, Peirianneg a Thechnoleg, Prifysgol Efrog

7. Emma Humphries
   Cymrawd Ymchwil Leverhulme
   Sefydliad: Ysgol y Celfyddydau, Saesneg ac Ieithoedd, Prifysgol y Frenhines, Belfast

8. Mojtaba Abdi Jalebi
   Swydd: Athro Cyswllt
   Sefydliad: Sefydliad ar gyfer Darganfod Defnyddiau, Coleg Prifysgol Llundain

9. Jordan Lane
   Swydd: Prif Swyddog Gwyddonol a Chyd-sylfaenydd
   Sefydliad: Ignota Labs

10. Guy Lawrence
    Swydd: Peiriannydd Datblygu Arweiniol
    Sefydliad: Composite Braiding Ltd

11. Christine Lehnen
    Swydd: Uwch Ddarlithydd mewn Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
    Sefydliad: Adran Addysg ac Astudiaethau Americanaidd, Prifysgol Hamburg

12. Tom Livermore
    Swydd: Pennaeth Polisi Gwyddoniaeth
    Sefydliad: Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew

13. Jamie Nash
    Swydd: Gwyddonydd Ymchwil Ôl-ddoethurol
    Sefydliad: Gwasanaeth Gwaed Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

14. Adrian Mircea Nenu
    Teitl swydd: Myfyriwr Doethuriaeth

Sefydliad: Ysgol Gwyddoniaeth a Pheirianneg, Prifysgol Manceinion

15. Charith Perera
    Swydd: Darllenydd
    Sefydliad: Ysgol Gyfrifiadureg a Gwybodeg, Prifysgol Caerdydd

16. Claudia Perry
    Swydd: Cydymaith Gwyddoniaeth Ddigidol
    Sefydliad: British Petroleum

17. Oliver Rieche
    Swydd: Cyfarwyddwr Materion Cyfreithiol, Caffael Carbon a Phartneriaethau Cyfraniadau a Benderfynir yn Genedlaethol (NDC)
    Sefydliad: Balance Eco Ltd

18. Neil Robinson
    Swydd: Darlithydd mewn Peirianneg Sero Net
    Sefydliad: Ysgol Gemeg a Pheirianneg Gemegol, Prifysgol y Frenhines, Belfast

19. Olivia Swann
    Swydd: Ymgynghorydd Cyswllt ac Anrhydeddus mewn Afiechyd Heintus Pediatrig, Gyrfa Gynnar Wellcome
    Sefydliad: Usher Institute, Prifysgol Caeredin

20. Finbarr Toesland
    Swydd: Newyddiadurwr
    Sefydliad: Llawrydd

21. Anne Williamson
    Teitl Swydd: Doctor ac Economegydd Iechyd Anrhydeddus
    Sefydliad: Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Guy's a St Thomas

22. Katharine Young
    Swydd: Darlithydd mewn Dulliau Ymchwil Dwyieithog
    Sefydliad: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**DIWEDD**

**Cysylltu**

Am fwy o wybodaeth am UK Young Academy ac i holi am gyfweld â llefarwyr, cysylltwch â thîm staff UK Young Academy:

**Lucy Parfitt**
Swyddog Cyfathrebu UK Young Academy
enquiries@ukyoungacademy.org.uk

**Nodiadau i'r golygyddion**

**Gwybodaeth am UK Young Academy**

Mae UK Young Academy yn cysylltu ac yn datblygu unigolion talentog ym mlynyddoedd cynnar eu gyrfa o amrywiaeth eang o sectorau, er mwyn iddynt allu cydweithio i wneud gwahaniaeth yn y byd.

Mae'n rhan o fenter ryngwladol sy'n tyfu i roi llais i arloeswyr, gweithwyr proffesiynol, academyddion ac entrepreneuriaid ar ddechrau eu gyrfa ar gyfer hyrwyddo materion sy'n bwysig iddynt. Mae UK Young Academy yn rhoi cyfle i'w haelodau gael cynrychioli eu safbwyntiau, eu gwybodaeth a'u dirnadaeth fel rhan o dirwedd ehangach cyrff academaidd a phroffesiynol yn y DU.

Sefydlwyd UK Young Academy yn dilyn cytundeb gan y saith uwch academi ledled y DU ac Iwerddon – Academi'r Gwyddorau Meddygol, yr Academi Brydeinig, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Academi Beirianneg Frenhinol, Academi Frenhinol Iwerddon, Cymdeithas Frenhinol Caeredin, a'r Gymdeithas Frenhinol. Gan weithio'n agos gyda Global Young Academy ac Young Academy Scotland, fe'i sefydlwyd gyda nawdd y Gymdeithas Frenhinol yn 2022.

Mae rhaglenni gwaith a mentrau dan arweiniad aelodau mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol a sefydliadau eisoes ar y gweill, gyda'r nod o fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol Young Academy a nodwyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf.
https://ukyoungacademy.org/

Chwiliwch am UK Young Academy ar LinkedIn, Facebook, YouTube, a X.

Mae set gyffredin o werthoedd sydd yn sylfaen i UK Young Academy, gan gynnwys:

- Rhagoriaeth – bydd aelodau yn rhagorol yn eu maes eu hunain.
- Tryloywder – bydd strwythur arweinyddiaeth clir sy'n atebol ac wedi'i ethol trwy weithdrefnau tryloyw.
- Uniondeb – bydd aelodau yn cynnal safonau moeseg uchel i wneud cyfraniad credadwy at faterion byd-eang.
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – gwneir ymrwymiad tuag at ddenu aelodaeth amrywiol, a bydd yr aelodau'n ymrwymo i gynnal amgylchedd cynhwysol a chyfartal i bawb.

Ariennir UK Young Academy gan grant i'r Gymdeithas Frenhinol gan Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT).